




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Deall sut y mae ysgol eich plentyn yn perfformio

Canllaw i'r system genedlaethol ar  
gyfer categoreiddio ysgolion



mae addysg  
yn dechrau  
**yn y cartref**  
education  
begins  
**at home**

# Beth yw'r system newydd a pham y mae wedi cael ei chyflwyno?

Er mwyn gwella safon addysg yng Nghymru a chynorthwyo ein holl ysgolion i wella mae arnom angen darlun clir iawn o ba mor dda y maent yn perfformio yn awr a'u capasiti i wella ymhellach. Ers cyflwyno'r system fandio, sef ein dull o bennu'r ysgolion uwchradd y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt o ystyried eu perfformiad, mae llawer o ysgolion wedi cyflawni cynnydd da iawn. Fodd bynnag, hoffwn weld mwy o ysgolion yn gwella, boed hwy'n ysgolion cynradd neu'n ysgolion uwchradd.

Dyma pam rwyf wedi cyflwyno system genedlaethol newydd ar gyfer categorïeddio ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Bydd yn ddull clir a syml o farnu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio er lles ei holl ddisgyblion, pa mor dda y mae'n cael ei harwain a'i rheoli, ansawdd yr addysgu a'r dysgu a lefel y gefnogaeth a'r her sydd ei hangen arni i berfformio hyd yn oed yn well. Wrth wraidd y system mae fy mlaenoriaethau o safbwynt atgyfnerthu llythrennedd a rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyflawniad addysgol.

Caiff pob ysgol uwchradd ac ysgol gynradd eu rhoi mewn un o bedwar categori lliw mewn perthynas â chefnogaeth. Bydd y categorïau hyn yn dangos pa ysgolion y mae arnynt angen y cymorth a'r arweiniad mwyaf i wella, pa ysgolion sy'n perfformio'n dda ond a allai wneud hyd yn oed yn well a pha ysgolion sydd eisoes yn effeithiol iawn ac a all helpu ysgolion eraill i berfformio'n well.

Hoffwn annog pob rhiant a gofalwr i ddangos diddordeb brwd ym mherfformiad a chynnydd ysgolion eu plant a chefnogi'r ysgolion hyn wrth iddynt wella. Beth bynnag y bo categori eich ysgol, bydd y system hon yn sicrhau y bydd yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth sydd ei hangen arni i gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer ei holl ddisgyblion.



*Huw Lewis AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau*

ISBN: 978-1-4734-2907-9

WG23641

© Hawlfraint y Goron Ionawr 2015



# Ateb eich cwestiynau

## Pam y mae angen system gategoreiddio newydd?

Bydd y system gategoreiddio hon yn rhoi darlun clir a theg i ni o gynnydd ysgol ynghyd â gwybodaeth am y modd y mae eich ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion eraill ar draws Cymru.



## Beth yw'r broses dri cham a sut y mae'n gweithio?

### CAM UN

#### GRŴP SAFONAU

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth amrywiol ar gyfer pennu dyfarniad ynghylch safonau ysgol. Caiff ysgolion eu rhoi mewn un o bedwar grŵp safonau (1 i 4). Bydd ysgolion yng ngrŵp safonau 1 yn dangos perfformiad cyffredinol da iawn a bydd yr ysgolion yng ngrŵp safonau 4 yn dangos yr angen mwyaf am well perfformiad.

### CAM DAU

#### CAPASITI I WELLA

Byddwn yn gwerthuso capasiti'r ysgol i wella ymhellach, gan ystyried tystiolaeth am y safonau ac ansawdd yr arweinyddiaeth, addysgu a dysgu. Bydd ysgolion o fewn un o bedwar grŵp (capasiti i wella: A-D). Bydd ysgolion yng ngrŵp A yn dangos y capasiti mwyaf i wella eu hunain a bydd yr ysgolion ynŷ ngrŵp D yn dangos y capasiti lleiaf i wella eu hunain.

### CAM TRI

#### CATEGORI CEFNOGAETH

Caiff y dyfarniadau yng ngham un a cham dau eu dwyn ynghyd a chaiff yr ysgol ei rhoi mewn un o bedwar categori lliw i ddangos y gefnogaeth sydd ei hangen arni. Bydd un ai yn y categori gwyrdd, melyn, oren neu goch. *Gweler trosodd.*



## Beth yw'r categorïau cefnogaeth?

Caiff ysgolion eu rhoi mewn un o bedwar categori lliw o safbwynt cefnogaeth.

### CATEGORI CEFNOGAETH GWYRDD

Mae'r ysgolion yn y categori gwyrdd yn ysgolion effeithiol iawn sy'n cael eu rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gadarn ac sy'n gwbl glir ynghylch eu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgolion hyn hanes llwyddiannus o godi'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni ac mae ganddynt y capasiti i gefnogi ysgolion eraill.

### CATEGORI CEFNOGAETH MELYN

Mae'r ysgolion yn y categori melyn yn ysgolion effeithiol sydd eisoes yn perfformio'n dda ac sy'n ymwybodol o'r meysydd y mae angen iddynt eu gwella. Trwy bennu'r gefnogaeth gywir a chymryd camau priodol gall yr ysgolion hyn gyflawni hyd yn oed mwy.

### CATEGORI CEFNOGAETH OREN

Mae'r ysgolion yn y categori oren yn ysgolion y mae angen eu gwella. Mae arnynt angen cymorth i nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella neu i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yn gyflymach. Yn sgil trafodaethau â'r gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion a'r awdurdod lleol bydd yr ysgol yn derbyn pecyn wedi'i deilwra o gefnogaeth.

### CATEGORI CEFNOGAETH COCH

Yr ysgolion yn y categori coch yw'r ysgolion y mae angen eu gwella fwyaf a byddant yn derbyn cefnogaeth ddwys ar unwaith. Caiff cynnydd yr ysgolion hyn ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl.

## Pa wybodaeth a gaiff ei defnyddio i gategoreiddio ysgolion?

Caiff gwybodaeth amrywiol iawn ei defnyddio. Byddwn yn ystyried perfformiad mewn Cymraeg neu Saesneg a mathemateg dros y tair blynedd ddiwethaf a hefyd y cynnydd cyffredinol y mae'r ysgol wedi'i gyflawni. Byddwn hefyd yn ystyried presenoldeb, pa mor effeithiol y caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli a hefyd pa mor ymwybodol ydyw o'i chryfderau a'r meysydd y mae angen eu gwella.

## Pam y mae ffigurau ynghylch presenoldeb yn bwysig?

Mae gwella presenoldeb yn flaenoriaeth genedlaethol. Os nad yw plant yn yr ysgol nid oes modd iddynt ddysgu ac ni fyddwn yn gallu sicrhau eu bod yn elwa i'r eithaf ar eu hamser yn yr ysgol.

## Pryd y caiff y categorïau cefnogaeth eu cyhoeddi?

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am categori cefnogaeth pob ysgol ac yn ei chyflwyno i rieni ar wefan Fy Ysgol Leol bob mis Ionawr:

<http://fyysgolleol.cymru.gov.uk>





## **Rwy'n bryderus ynghylch categori cefnogaeth ysgol fy mhlentyn. Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ysgol eich plentyn neu am ei chategori dylai pennaeth neu lywodraethwyr eich ysgol allu eich helpu. Gallwch hefyd ymweld â gwefan Llywodraeth Cymru sef: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/schooldata/ims/?lang=cy> sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth.


## **A fydd ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn cael eu categorioeddio?**

Ar hyn o bryd mae'r system genedlaethol ar gyfer categorioeddio ysgolion yn canolbwyntio ar ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, caiff categori cefnogaeth ei roi i ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion o fewn pob awdurdod lleol.


## **A fydd y system hon yn disodli adroddiadau Estyn?**

Na. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion a bydd yn archwilio o'r tu allan y system genedlaethol ar gyfer categorioeddio ysgolion fel rhan o'i harolygiadau.





Bydd eich pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr yn medru ateb unrhyw gwestiynau am eich ysgol.  
Anfonwch unrhyw gwestiwn arall i: [IMS@cymru.gsi.gov.uk](mailto:IMS@cymru.gsi.gov.uk) os gwelwch yn dda.

 [facebook.com/dechraucartref](https://www.facebook.com/dechraucartref)  [@dechraucartref](https://twitter.com/dechraucartref)

[www.cymru.gov.uk/hysbysgolygonirieni](http://www.cymru.gov.uk/hysbysgolygonirieni)